# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y Cyfarfod

Dyddiad: 16/07/19

Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ystafell Gynadledda B

| Enw | Sefydliad | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| **Suzy Davies AC** | | **Suzy.davies@cynulliad.cymru** |
| **Craig Lawton (Ysgrifennydd)** | **Suzy Davies AC** | **Craig.lawton@cynulliad.cymru** |
| Andrew Campbell | Cynghrair Twristiaeth Cymru | campbellandrewalex@gmail.com |
| **Janet Finch-Saunders AC** | | |
| Paula Ellis | Retreats Group | |
| Val Hawkins | Twristiaeth Canolbarth Cymru | |
| Jim Jones | Twristiaeth Gogledd Cymru | |
| Danielle May | Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain | |
| Iwan Thomas | Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu | |

**Ymddiheuriadau**

| Enw | Sefydliad | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Emma McQuillan | Clwb Carafanau a Chartref Modur | |
| Barbara Griffiths | North Wales Holiday Cottages | |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru | |

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd SD y mynychwyr

2. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Fel uchod

Dymunodd pawb yn y grŵp yn dda i Adrian Greason-Walker wedi iddo wella yn dilyn damwain beicio.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Wedi'u gadarnhau a'u cytuno

4. Cafwyd diweddariad ynghylch Croeso Cymru gan Jason Thomas, cyfarwyddwr diwylliant, twristiaeth a chwaraeon yn Llywodraeth Cymru: 'Llunio dyfodol y diwydiant twristiaeth yng Nghymru'

Rhoddodd LlC ddiweddariad ar eu Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020 a'u hymgynghoriad ar ddogfen i gymryd lle hyn.

Mae ganddo bum blaenoriaeth:

1. Hyrwyddo
2. Cynnyrch
3. Pobl
4. Perfformiad
5. Partneriaethau

Yna dangosodd LlC gyflwyniad fideo o'u cynlluniau ar gyfer twristiaeth wrth symud ymlaen.

Nododd SD fod menywod wedi'u tangynrychioli yn y fideo ac yn eu marchnata. Nododd LlC hyn a derbyn a chytuno bod angen iddynt wneud yn well.

Nododd LlC fod y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi nodi pedwar tueddiad byd-eang ar gyfer twristiaeth:

1. Galw gan ymwelwyr yn esblygu
2. Twf twristiaeth cynaliadwy
3. Galluogi technoleg
4. Symudedd

Mae LlC wedi lansio gwefan newydd CroesoCymru.com gyda gwell rhestrau cynnyrch. Ailgyfeiriwyd Croseo.Cymru at hyn hefyd.

Mae LlC wedi cynnal ymgynghoriad twristiaeth i weld sut y byddant yn mynd i'r afael â'r heriau uchod, beth yw anghenion ar ymwelwyr, pa sgiliau iaith sydd eu hangen a beth ddylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fod. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Mai 2019. Cafwyd 309 o ymatebion ar-lein, 57 ysgrifenedig, a chynhaliwyd 20 gweithdy. Roedd hyn yn cynnwys rhai o dramor.

Cyflwynodd LlC eu strategaeth ar gyfer themâu yn y dyfodol. Mae LlC bellach yn edrych ar ganolbwyntio buddsoddiad ar brosiectau neilltuol.

Hefyd, mae angen sicrhau bod prosiectau'n gyson â strwythur a chynllun Croeso Cymru fel bod themâu yn adlewyrchu'r nodau.

5. Trafodaeth/Cwestiynau

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y Fargen Sector Twristiaeth gan Lywodraeth y DU a'i rôl. Nododd LlC ei bod yn beth da os daw arian i Gymru. Bydd LlC yn cwrdd â gwledydd datganoledig eraill ym mis Gorffennaf i drafod hyn ymhellach.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch strategaeth o'i gymharu â Visit Britain a Visit England.

Mae Visit Britain wedi gosod targed y dylai 1.5 y cant o incwm twristiaeth y DU gael ei gynhyrchu gan Gymru.

Cynigiodd Twristiaeth Gogledd Cymru yr hoffai wneud cynnig am fargen sector twristiaeth. Nododd LlC fod angen gwneud llawer o bethau ar gyfer bargen sector ac mae'n annhebygol y caiff gogledd Cymru un penodol sy'n rhan o fargen ardal Manceinion os oes angen unrhyw arian gan LlC.

Mae LlC yn edrych ar barthau twristiaeth. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos eu bod yn Lloegr yn unig. Pe bai LlC yn edrych ar barthau twristiaeth byddai angen iddo roi ei harian ei hun i mewn. Yn Lloegr daw'r arian ar gyfer y parthau gan fusnesau preifat, felly nid yw Cymru'n cael unrhyw gyllid canlyniadol Barnett.

Cynigiodd y grŵp trawsbleidiol fod angen Deddf twristiaeth newydd gan fod yr un diwethaf ym 1969.

Dywedodd LlC eu bod yn pwyso am ddatganoli TAW a chyfraddau busnes i Gymru felly y gallent amrywio'r rhain, ond nid yw Llywodraeth y DU wedi eu datganoli. Cynigiwyd y gallai symudiad o ran TAW fod yn bosibl, ond dim ond os oes treth twristiaeth, gan y gallai gostyngiad mewn TAW arwain at lai o incwm.

Dywedodd LlC eu bod hefyd yn edrych ar fwrdd sgiliau posibl ond y byddai angen i'r sector twristiaeth arwain hyn ac felly mae angen llawer mwy o gyfranogiad.

Cytunodd pawb fod angen mwy o ffocws ar ddangos buddion swyddi a gyrfaoedd yn y diwydiant twristiaeth.

Nododd LlC fod angen arweinyddiaeth eto ynglŷn â pha sgiliau sydd eu hangen ac y gellir eu dysgu drwy weithio yn y diwydiant.

Cytunodd LlC serch hynny fod yna lawer o gyrff rhanbarthol eisoes ac nad oes angen “ardal” “parth” na “grŵp” arall ac y byddai angen mwy o fiwrocratiaeth i gyflawni hyn.

6. Camau i'w cymryd

Nid oes angen cymryd unrhyw gamau.

7. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth SD â'r cyfarfod i ben.